CYMDEITHAS ENWAU LLEOEDD CYMRU
WELSH PLACE-NAME SOCIETY
Cylchlythyr 6 Hydref 2014
Newsletter 6 Autumn 2014

Cors y Bryniau

A hoffech fod yn berchen ar y darlun trawiadol ac anarferol hwn o chwareli llechi Alexandra a Moel Tryfan, sef 'Cors y Bryniau', uwchlaw Rhosgadfan, ger Caernarfon? Rhosgadfan oedd cartref gwreiddiol Kate Roberts, a roddodd y teitl 'O Gors y Bryniau' i'w chyfrol gyntaf.

Mae'r darlun, sy'n mesur 20x30 modfedd, wedi ei argraffu ar haen glir a'i osod ar alwminiwm, ac yna ei selio. Mae'n dywyllach na'r fersiwn a atgynhyrchir yma. Darlun reit fawr a drud i'w gynhyrchu ydyw o waith y ffotograffydd talentog Iestyn Hughes. Bydd darllenwyr Cymraeg yn hen gyfarwydd â'i waith mewn llyfrau a chylchgronau. Mae'r Gymdeithas yn hynod ddiolchgar iddo am gynnig y darlun i godi arian inni.

Gwerthir y darlun ar ocsiwn yn ystod Cynhadledd y Gymdeithas yn Abertawe ar 4 Hydref. Mae isafbris o £100 wedi ei roi ar y gwaith. Dylid rhoi eich cynnig mewn amlen wedi ei selio, i gyrraedd yr Ysgrifennydd, Angharad Fychan, Y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH erbyn bore Gwener, 3 Hydref, neu roi'r amlen i Angharad erbyn diwedd amser cinio'r Gynhadledd. Os byddwch yn aflwyddiannus, beth am fynd i wefan Iestyn, sef http://atgof.co, a dewis darlun arall!

Would you like to own this striking and unusual photograph of the Alexandra and Moel Tryfan slate quarries, known as 'Cors y Bryniau', above Rhosgadfan, near Caernarfon? Rhosgadfan was the original home of Kate Roberts, who gave the title 'O Gors y Bryniau' (From Cors y Bryniau) to her first published volume.

The photograph, which measures 20x30 inches, is printed on clear film, bonded to brushed aluminium, and sealed. It is darker than the version reproduced here. It's quite a large photograph, and was expensive to produce, and is the work of the talented photographer Iestyn Hughes. Welsh readers will already be familiar with his work in books and periodicals. The Society is very grateful to him for donating the photograph to raise money.

The photograph will be sold by auction during the Society's conference in Swansea on 4 October, with a reserve price of £100. You can bid by sending your offer in a sealed envelope to reach the Secretary, Angharad Fychan, The Centre for Advanced Welsh & Celtic Studies, National Library of Wales, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH by Friday morning, 3 October, or by giving Angharad the envelope by lunchtime at the Conference. If you are not successful, why not go to Iestyn's website, http://atgof.co, and choose another photograph!

Cynhadledd *Cymdeithas Enwau Lleoedd Prydain ac Iwerddon (SNSBI)* yng Ngregynog, 4-6 Ebrill

Cymerodd nifer o aelodau'r Gymdeithas ran: papurau gan Prys Morgan ar 'Gregynog', Richard Morgan ar 'Montgomery Place-names' ac Angharad Fychan ar 'Gochel gwympo, torri gwddf, a mynd i bwll Uffern!'; adroddiadau gan Rhian Parry ar waith y Gymdeithas, a David Parsons am Cymru 1900; a Hywel Wyn Owen a David Parsons yn cadeirio sesiynau.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yn y Bala, 26-31 Mai:

Cyhoeddwyd erthygl gan Hywel Wyn Owen ar rai o enwau lleoedd Sir Feirionnydd yn y Rhaglen Swyddogol.

Yn ystod yr Eisteddfod, galwodd nifer i mewn i babell Mantell Gwynedd lle roedd gan y Gymdeithas stondin. Yn sgil hyn daeth cofnod am newid enw hynafol. Newidiodd enw bwthyn rhwng Niwbwrch a Malltraeth, o 'Rhedyn Coch Bach' i 'Rose Cottage', gan golli mewn chwinciad enw hynafol tlws, sy'n cyfleu naws y llecyn i'r dim. Braf iawn serch hyn oedd sylwi ar enwau cartrefi'r rhai a alwodd heibio gan adael manylion cyswllt neu wrth ymuno â'r Gymdeithas. Yn eu plith mae Hafoty Gwyn, Gydros Isaf, Llain Deg, Tu hwnt i'r Fawnog, Giât Goch, Ty'n-y-wern a'r Greigwen. Gwelsom nifer dda o blant a phobl ifainc yn galw heibio i'r stondin a mentrodd rhai ar y cystadlaethau ar gyfer gwahanol oedrannau. Yn dilyn yr Eisteddfod, anfonwyd chwe chopi o lyfr Catrin Stevens, *A Wyddoch chi am enwau lleoedd Cymru?* yn wobrau at Isabel Owen, Ysgol Gynradd Machynlleth, Medi Phillips a Seren Willicombe, Ysgol Bryn Tawe, Efa Lois Williams, Ysgol Gymraeg Aberystwyth, a Chloe Carter a Seren Thomas, Ysgol Bro Dinefwr.

Galwodd y cyfryngau heibio hefyd a chawsom gyfweliadau ar Radio Cymru a S4C. Bu'n gyfle i egluro amcanion y Gymdeithas ac i sôn am y gwaith o gofnodi enwau'r glannau a darnau o afonydd ar fapiau digidol Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddwn yn cynnal gweithdai lleol dros Gymru, bob yn afon gan wahodd beilïaid dŵr, pysgotwyr, ac aelodau o'r cyhoedd sy'n gwybod am enwau ar byllau afonydd, cilfachau, ac ogofau ar y glannau. Yn ystod y gweithdai, byddwn yn cofnodi'r enwau ac unrhyw hanesion am y lleoliad. Rydym hefyd yn gobeithio cydweithio â chymdeithasau hanes lleol ac Amgueddfa Forwrol Llŷn. Byddwn yn falch iawn o glywed gan unrhyw aelod am rai fyddai'n debyg o fod yn gallu cyfrannu: enwaulleoedd@gmail.com

Y Sioe Fawr

Bu'r Gymdeithas yn cydweithio gyda Phrosiect Cynefin Llyfrgell Genedlaethol Cymru i baratoi deunydd ar gyfer y Sioe Fawr eleni. Ewch i http://cynefinblog.archiveswales.org.uk/?p=496&lang=cy

Eisteddfod Genedlaethol sir Gâr, Llanelli

Bu gan y Gymdeithas bresenoldeb yn stondin Fforwm Hanes Cymru. Cafwyd nifer o aelodau newydd a thipyn o ymateb i'n hapêl am dystiolaeth o newid enwau.

Traddododd David Thorne ddarlith ar 'Rhai Enwau Lleoedd yn Sir Gâr', darlith a drefnwyd gan y Gymdeithas mewn partneriaeth â Chyngor Sir Gâr. Cyhoeddwyd sylwadau ganddo ar ddyrnaid o enwau ar gyrion maes yr Eisteddfod yn *Y Faner Newydd*.

Cydweithiodd y Gymdeithas gyda phrosiect Cynefin LIGC unwaith eto i baratoi deunydd ar gyfer yr Eisteddfod. Ewch i:
http://cynefinblog.archiveswales.org.uk/?p=534&lang=cy

Cyhoeddwyd erthygl ar daith yn ardal yr Eisteddfod (yn cynnwys sylwadau ar enwau lleoedd a chyfeiriad at y Gymdeithas) gan Cledwyn Fychan yn rhifyn yr Eisteddfod o *Barn*.

Gweithgareddau Eraill

Mae nifer o aelodau'n brysur yn codi ymwybyddiaeth o'r Gymdeithas ac yn creu cysylltiadau drwy Gymru. Cafwyd cyfarfodydd yn Llanfihangel-ar-arth, Ynys Môn, Harlech, Ysbyty Ifan (lle mae grŵp Sefydliad y Merched yn brysur yn gwneud gwaith 'y Filltir Sgwâr' yn yr ardal. Mae colofnau am enwau lleoedd ym mhapurau bro *Yr Angor*, *Y Barcud*, a'r *Ddolen* gan Gerald Morgan, *Clochdar* gan Deric John, *Clonc* gan David Thorne, a'r *Tincer* gan Angharad Fychan.

Cafwyd taith lwyddiannus iawn ar y cyd rhwng y Gymdeithas a Chymdeithas Hanes y Tair Llan yng nghwmni Ifor Williams a Tony Lovell, 27 Ebrill, ar enwau lleoedd Llanfaglan a'r Fenai.

Rydym yn dal i gydweithio â HistoryPoints ac edrychwn ymlaen at glywed rhagor am hynny yn ystod y Gynhadledd. Byddwn yn cydweithio yn 2015 gyda Chymdeithas Hanes Sir Feirionnydd a Chymdeithas yr Ariannin i gynnal darlith am enwau lleoedd Patagonia.

Ond ein prif waith dros yr hydref fydd cofnodi enwau ar y mapiau digidol.

Robin Evans

Trist yw cofnodi marwolaeth Robin Evans, sylfaenydd a chadeirydd cyntaf MOROL (Sefydliad Astudiaethau Hanes Morwrol Cymru). Roedd yn awdur toreithiog ac yn gyfrannwr cyson i nifer o gylchgronau hanes. Ymysg ei lyfrau mae *Adolf Hitler a'r Natsiaid* (1994), *Chwyldro! Chwyldro?* (2004), *Mewnfudwyr yng Nghymru yn ystod yr 20fed Ganrif* (2007), *Ffarwel i'r Grassholm Gribog: Moelfre a'r Môr* (2009), *Pysgotwyr Cymru a'r Môr* (2011), *Gwlad y Basg – Yma o hyd!* (2012), a *Merched y Môr* (2013).

Dywed tudalen facebook MOROL.eu 'Bydd colled enfawr ar ei ôl ac rydym yn cofio'n annwyl. Bydd angerdd Robin ar gyfer treftadaeth morwrol Cymru nid yn unig yn aros gyda ni drwy MOROL a'i gyhoeddiadau (gan gynnwys cyhoeddiadau yn y dyfodol), ond hefyd [drwy] fod yr amgylchedd treftadaeth forwrol bellach yn fywiog ac yn gryf yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau na fydd Robin yn cael ei anghofio.'

Dywed Rhian Parry 'fod Eglwys fechan Llanallgo ger Moelfre dan ei sang a llu o gyfeillion a chydweithwyr i Robin yno i dalu'r deyrnged olaf iddo. Doedd yr un man yn fwy priodol rhywsut, eglwys *Y Royal Charter*, Moelfre gerllaw ac anerchiad bythgofiadwy Janet yn annwyl a dewr. Un fel'na oedd Robin.'

Blaenau Tywi

Blaenau Tywi: Enwau yn y tirwedd / Names in the Landscape (Grŵp Hanes Blaenau Tywi, 2014)



Mae'r gyfrol hardd hon am ffermydd ac enwau caeau Blaenau Tywi yn ffrwyth llafur patrwm o brosiect gan Grŵp Hanes Blaenau Tywi yn ystod 2012-13, a sbardunwyd 'gan y teimlad fod enwau caeau'r ardal yn cael eu diystyru a'u hanghofio am taw rhifau bellach a ddefnyddir i gofnodi caeau, a hefyd am fod y nifer gynyddol o bobl ddi-Gymraeg sy'n symud i'r gymdogaeth heb fodd i werthfawrogi cyfoeth yr enwau.' Man cychwyn yr astudiaeth yw dyraniadau'r degwm ar gyfer Llanfair-ar-y-bryn (1839) a Chil-y-cwm (1843). Yn anffodus ni chofnodwyd enwau caeau yn nyraniad Cil-y-cwm.

Mae'r rhagair yn ymddiheuro na fu modd cynnwys pob fferm oherwydd cyfyngiadau amser a nifer y gwirfoddolwyr, ond mae'n wyrthiol bod y grŵp wedi llwyddo i gyflawni cymaint. Ceir erthyglau ar y ffermydd, wedi eu rhestru dan y fersiynau cyfredol o'u henwau yn nhrefn yr wyddor. Yn yr erthyglau rhoddir y cyfeirnod grid, nodyn ar hanes y fferm, ac yna ddetholiad o'r enwau caeau mwyaf diddorol – ffurf y degwm neu ffynhonnell gynnar arall, ffurf wedi ei safoni, cyfieithiad Saesneg, gwybodaeth ychwanegol, a'r ffynonellau am yr wybodaeth. Bwriedir gosod deunydd ychwanegol nas defnyddiwyd ar wefan y grŵp. Ar ben hynny cofnodwyd dros 130 o fythynnod nad oeddent yn ymddangos yn y dyraniadau a mapio eu lleoliadau. Fel y dywedwyd eisoes, patrwm o brosiect, sy'n cyflwyno hanes ardal drwy gyfrwng ei henwau, patrwm i wirfoddolwyr y Gymdeithas ei efelychu.

Dyna'r esgyrn. Byddai'r rheini'n ddigon i haeddu canmoliaeth eithafol. Ond mae'r cnawd a roddir ar yr esgyrn yn rhyfeddol. Mae diwyg y gyfrol yn ysblennydd, yn llawn lluniau lliw pwrpasol: lluniau camera ardderchog, atgynyrchiadau o ddogfennau a mapiau ac o luniau artistiaid, a'r cyfan wedi ei ddylunio'n hardd ar dudalennau digon mawr. Mae'r logos ar y cefn yn esbonio sut yr ariannwyd y gyfrol mewn ffordd mor deilwng: Canolfan Tywi, RDP Sir Gâr, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Gâr, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, a Llywodraeth Cymru. O na bai cyfrol debyg ar gyfer pob ardal!

Gareth A Bevan

Llanffa

Ystyr yr enw yw 'eglwys (sant) Tyfái'.

Mae'n debygol fod pentrefan presennol *Llanffa* (SS9275) ym Mro Morgannwg a *Llanffa Court* gerllaw wedi eu henwi ar ôl capella *Ugemor de Lanfey* (1141), capel y gellir canfod ei olion o hyd er ei fod yn perthyn i gyfnod cyn dyfodiad y Normaniaid. Llampha yw'r ffurf sy'n digwydd amlaf ar fapiau; sylwer bod yr *ff* Gymraeg yn cael ei dynodi gan *ph*.

lan tiuei yw'r ffurf gynharaf ar yr enw sydd ar glawr. Digwydd honno yn Llyfr Llandaf. *Llandyfái* fyddai'r ffurf mewn orgraff gyfoes. Yr elfennau yn yr enw yw llan ac enw'r sant sef *Tyfái*. Mae'r elfen *ty-* yn dynodi parch neu anwyldeb; fe'i dilynir gan yr enw personol *Mai*. Disgynnai'r prif bwyslais yn Tyfái ar y sillaf olaf ac yn sgil hynny collwyd y sillaf gyntaf yn y cyfuniad mewn cyfnod cynnar, fel y prawf y ffurf *Lanfey* a nodwyd uchod.

Cymar yw *Llandyfái* (Lamphey) yn Sir Benfro.

Yr un elfennau yn union a geir yn yr enw *Llandyfeisant*, sir Gaerfyrddin, ond yn Llandyfeisant cadwyd yr elfen *ty-* mewn cyfuniad lle y mae'r patrwm pwysleisio yn wahanol.

Darllen pellach: Gwynedd O Pierce: *Place-Names in Glamorgan* (2002).

David Thorne

I'ch Dyddiadur

28 Medi 2014 – Sgwrs a Thaith Gerdded: Mapio/Creu, Aberystwyth
4 Hydref 2014 – Cynhadledd Flynyddol CELIC, Abertawe

Save the date

28 September 2014 – Talk and Walk: Maps and Makers, Aberystwyth
4 October 2014 – WPNS Annual Conference, Swansea

Maplyfr Ystad Herbert Evans, y Dolau

Yn ddiweddar daeth copi o faplyfr (1785) ystad Herbert Evans (*c.* 1744–1787), y Dolau, Llanybydder, sir Gaerfyrddin, yn ôl i Gymru yn dilyn cyfnod maith mewn archif breifat yn Hampshire. Gan fod y mapiau hyn wedi eu diogelu mewn archif breifat, ni chyfeirir atynt mewn cyhoeddiadau sy'n trafod maplyfrau sir Gaerfyrddin yn niwedd y ddeunawfed ganrif.


MAPS of the
LLANLLWNY Estate
in the County of
CARMARTHEN
Part of the Property of
HERBERT EVANS
Esq.
By T. Lewis 1785

Mapiau o ffermydd yn Llanllwni, a oedd yn rhan yn unig o ystad Herbert Evans, yw prif gynnwys y llyfr. Mae'r mapiau'n dangos ffiniau caeau pob fferm unigol a oedd yn perthyn i'r ystad ac yn cofnodi enwau'r ffermydd a oedd yn eiddo i'r ystad ac enwau'r ffermydd cyffin ynghyd ag enwau'r tirfeddianwyr cyffiniol. Yn yr atodlen rhoir enwau'r caeau, eu maint a'r defnydd a wnaed ohonynt ynghyd ag ambell bortread bychan, rhamantus o fywyd gwledig. T Lewis oedd enw'r cartograffydd neu'r tirfesurydd a luniodd y rhan hon o'r gyfrol. O bosibl dyma'r Thomas Lewis a fapiodd ystadau John Vaughan, Gelli-aur.
Yn yr un gyfrol, ceir cyfres o fapiau diweddarach (1859) o ffermydd ym mhlwyf Llanybydder gan B Jones, o bosibl Benjamin Jones (1806–63), Talardd, Llanllwni, tirfesurydd a luniodd fap degwm Llanllwni ac amryw blwyfi eraill yng ngogledd sir Gaerfyrddin. Dilynodd Jones y patrwm cyffredinol a'r arddull a fabwysiadwyd gan Lewis.

Ceir un map diweddarach eto a hwnnw'n cofnodi enwau caeau'r Red Lion a Tirbach ger Cwrtnewydd neu Newcourt (chwedl y mapiwr) yng Ngheredigion.

David Thorne

Mapio/Creu Maps and Makers

Dydd Sul 28 Medi

Un o gyfres o sgyrsiau a theithiau cerdded yn ymateb i dirweddau Ceredigion trwy fapiau.

11:00 Sgwrs gan David Parsons (yn Saesneg) yn yr Oriel Nwy, Coedlan y Parc, Aberystwyth.

12:00 Taith gerdded (tua 5 milltir) a chyfle i ddehongli rhai o enwau lleoedd ardal llynnoedd Trefeurig dan arweiniad Angharad Fychan (yn Gymraeg ond gyda thaflen wybodaeth Saesneg). Cyfarfod yn y maes parcio ger Llyn Pantyrebolion (Pen Dam) SN 710839. Gwisgwch yn addas a dewch â chinio gyda chi.



Mary Lloyd Jones

Trefnir gan Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru mewn partneriaeth â'r Oriel Nwy ac Aberystwyth Printmakers, gyda chefnogaeth Gwarchod, cynllun Loteri Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Ni fydd trefnydd y daith yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw ddamwain. Bydd pawb yn gyfrifol am ei ddiogelwch ei hun ac am y plant sy'n dod gyda nhw.

Sunday 28 September

One of a series of talks and walks responding to the landscapes of Ceredigion through maps

11:00 Talk by David Parsons (in English) in the Gas Gallery, Park Avenue, Aberystwyth

12:00 Guided walk (approx. 5 miles) with an opportunity to interpret some of the place-names of the lake district of Trefeurig, led by Angharad Fychan (in Welsh but with an English-language information leaflet). Meet in the car park near Llyn Pantyrebolion (Pen Dam) SN 710839. Dress appropriately and bring your lunch with you.

Organized by the University of Wales Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies, in partnership with the Gas Gallery and Aberystwyth Printmakers, and with the support of Gwarchod, the Heritage Lottery programme of the Welsh Place-Name Society. The organizer of the walk will not accept responsibility for any accident. Everyone is responsible for his/her own safety and for children whom they bring to the event.

The Brittonic Language in the Old North

The Brittonic Language in the Old North: a Guide to the Place-Name Evidence by Alan G James may be downloaded from http://www.spns.org.uk/bliton/blurb.html

Volume 2 of this work is a dictionary of P-Celtic elements (in their neo-Brittonic forms) which may occur in place-names in southern Scotland and northern England. The entries include etymological information and details of place-names in which these elements may occur, including those found in Classical and Early Medieval sources and in early Welsh literature referring to the 'Old North', with references to published records of early forms and discussions of these names and elements. Many readers will have profited from using the author's old BLITON database (formerly on the SPNS website), which the present work now replaces, and will be looking forward to using this new final version.

Volume 1 contains among other things a substantial introduction and several lists of elements, including a glossary of Modern Welsh equivalents. Volume 3 contains an index of all the place-names discussed.

Alan G James read English philology and medieval literature at Oxford. After retiring, he spent a year as a Visiting Scholar in Cambridge University's Department of Anglo-Saxon, Norse and Celtic, studying Celtic philology. Since then he has been working on the linguistic history of Northumbria and the 'Old North', and has published a number of articles on this subject.

Cynhadledd 2014

Cynhelir cynhadledd undydd flynyddol CELIC eleni yn Theatr Faraday, Prifysgol Abertawe, ddydd Sadwrn 4 Hydref 2014, ar wahoddiad Academi Hywel Teifi. Agorir y gynhadledd gan Christine James, Archdderwydd Cymru. Bydd papurau gan Prys Morgan ar enwau lleoedd bro dwy iaith, Bedwyr ap Gwyn ar godi ymwybyddiaeth o enwau nodweddion tirweddol ymysg arweinwyr gweithgareddau amgylcheddol, Rhodri Clarke ar ddatblygu technoleg ffonau i rannu gwybodaeth am enwau lleoedd, Robert Rhys ar enwau mewn llenyddiaeth Gymraeg, ac Oliver Padel ar agweddau ar enwau lleoedd Cernyw. Trefnydd y rhaglen yw Hywel Wyn Owen. Cynhelir cyfarfod cyffredinol blynyddol CELIC yn ystod y gynhadledd.

Meini Hirion

Saif carreg wen ar sgwâr pentref Penrhyn-coch, ger Aberystwyth, i goffáu'r rheini a gollwyd yn y ddau ryfel byd. Daethpwyd â'r garreg yno o Fanc Troedrhiwseiri (rhyw ddwy filltir i'r gogledd-ddwyrain) lle'r arferai sefyll ar fin y ffordd, a'r enw lleol arni oedd *Y Fuwch Wen*.

Y Fuwch Wen

Ceir amryw o feini eraill gydag enwau cyffelyb yn yr ardal:

Yn ei 'Plan of the Mannor of Perveth' (a luniwyd tua chanol y ddeunawfed ganrif), mae Lewis Morris yn cofnodi lle o'r enw *Maen Tarw* ar y ffordd gefn sy'n arwain o Benrhyn-coch i Bonterwyd, y tu draw i Lyn Blaen Melindwr. Nodir yr enw hefyd ar fap Stad Gogerddan o Geufaes yn 1788 (LlGC cyfrol 37, t 55). Mae'n ymddangos bod yr enw yn cyfeirio at faen llwyd sy'n sefyll mewn ffos ar fin deheuol y ffordd.

Rhyw gan llath ymhellach ar hyd yr un ffordd saif dau faen arall, un ychydig yn fwy na'r llall, yn dwyn yr enw *Y Fuwch a'r Llo*. O edrych arnyn' nhw o gyfeiriad Ponterwyd, mi allech ddychmygu bod y mwyaf o'r ddau faen yn fuwch a'i phen ôl atoch ond yn troi ei phen yn ôl tua'r dde fel petai'n llyfu ei chefn.

Mae'r hynafiaethydd Edward Lhwyd (*Parochialia* iii. 40) yn cyfeirio at Garnau Pumlumon ar y ffin rhwng Ceredigion a sir Drefaldwyn, ac yn eu henwi fel *Y Fuwch Wen a'r Llo* a'r *Fuwch Grownig* ('corniog' efallai?). Ceir cadarnhad o leoliad *Y Fuwch Wen a'r Llo* ar fap 6 modfedd yr Arolwg Ordnans heb fod ymhell o darddle Afon Hafren, ond nid yw lleoliad yr ail yn hysbys.

O edrych yn ehangach ar draws Cymru, ceir enghreifftiau pellach o feini hirion wedi ei henwi mewn modd tebyg:

Yn *The Cambrian Quarterly Magazine and Celtic Repertory* (1829), i. 38 cyfeirir at yr *Hwch a'i Pherchyll*, maen gyda nifer o feini llai o'i amgylch, yn Llanwnnog, sir Drefaldwyn; mae Richard Fenton yn ei gyfrol *Tours of Wales* (1804-13) t. 335 yn sôn am '*Kesig Aled*, two grey stones by Llyn Aled' ar Fynydd Hiraethog, sir Ddinbych'; ac mewn adroddiad ym mhapur newydd *Seren Cymru* (http://papuraunewyddcymru.llgc.org.uk) ar 11 Hydref 1878, ceir hanes llongddrylliad y Charlotte ar graig *Y Fuwch a'r Llo* ger Abergwaun yn sir Benfro.

Y Fuwch Wen a'r llo

Gellid dadlau i'r meini hyn dderbyn eu henwau oherwydd eu tebygrwydd ymddangosiadol i'r anifeiliaid dan sylw. Tybed, fodd bynnag, ai mewn modd cellweirus y rhoddwyd yr enw *Bishop and his Clerks* i glwstwr o ynysoedd bychain a chreigiau ar arfordir sir Benfro?

Os gwyddoch chi am feini hirion eraill sydd ag enwau diddorol, byddwn yn falch o glywed amdanynt.

Angharad Fychan

A Social Topography of Caerwedros during the Sixteenth Century

G Lynn Morgan (ISBN 9781407312934; Archaeopress; 2014; £29.00)

In *A Social Topography of the Commote of Caerwedros in Ceredigion within its Regional Context during the Sixteenth Century* the author defines the historical geography of the commote of Caerwedros by retroactive analysis, relating the area's social topography and structure to the political and economic dynamics of Welsh culture from the later Middle Ages to the 16th century, including its ancient territorial units (*tref* and).

Part of this is the religious landscape represented by medieval stone churches and the role of important religious houses founded in the 12th century, especially the Cistercian Abbey of Whitland, whose farms are recorded in charters given by the Lord Rhys of Deheubarth. These are mapped within the framework of three granges in the commote. The 15th and 16th centuries saw the emergence of a largely indigenous gentry class as primary controllers of the land and the study tracks the genealogies and family inter-relationships of prominent local families within local community landscapes.

Alongside this is an analysis of Welsh place-names aimed at increasing our understanding of the social evolution of land ownership and management, within the context of farming communities in the cultural landscape of 16th century south-west Ceredigion. This will be of particular interest to members of the Society.



This book is fresh from the press. It is available from the publishers for £23 post free until 31 October. Lynn Morgan is a member of the Society, who gained an MPhil for this work. She hopes to be present at the Conference, where she will be happy to receive orders.

Trawsfynydd

Nid wyf yn arbenigwr ar enwau lleoedd nac yn ffilolegydd, ond fel llawer un arall mae gennyf ddiddordeb mewn enwau lleoedd; ac enw lle a fu ar fy meddwl ers amser yw *Trawsfynydd*, y pentref yn Ardudwy a enwogwyd gan y bardd Hedd Wyn.

Pe bai *traws*- yn gyfystyr â *tros*, byddai ystyr *Trawsfynydd* yn o eglur, sef '(lle / ardal) tros / tu hwnt i / yr ochr draw i'r mynydd', a dygid i gof ffurfiau Lladin cyfochrog megis *Transalpinus* 'tu hwnt i'r Alpiau' neu *Transylvania* 'tu hwnt i'r goedwig'. Ei ddeall yn gyfystyr â *tros* a wneir gan, e.e., Hywel Wyn Owen a Richard Morgan yn eu *Dictionary of the Place-Names of Wales* (2008), t 463, lle y'i cyfieithir 'across the mountain'.

Ond *traws*, nid *tros*, yw'r elfen gyntaf, ac ni nodir unrhyw enghreifftiau yn GPC o'i ddefnyddio'n gyfystyr â'r arddodiad *tros*.

Gall *traws* fod yn ansoddair neu'n enw (gwrywaidd). Fel enw golyga 'cyfeiriad, ardal' yn ôl Ifor Williams (Pedeir Keinc y Mabinogi (1930) tt 239-40; cf. GPC t 3561 'cyfeiriad, lle, ardal, bro'), a chrybwylla *Trawsfynydd* gan roi i *Traws*- yr ystyr 'ardal'. Fe ellid dadlau o blaid yr ansoddair ('mynydd cadarn' neu'r cyffelyb) ond gwell gennyf fy hun ddilyn greddf a barn pencampwr enwau lleoedd a'i drin fel enw.

Beth, gan hynny, yw ystyr ac arwyddocâd yr enw cyfan? Dengys y treiglad i'r ail elfen fod honno wedi ei goleddfu gan yr elfen gyntaf; h.y. enghraifft sydd yma o'r gystrawen 'hydref ddail' (cf. ymadroddion megis *uffern dân*, *deufor gyfarfod*, *tafod leferydd*, etc.), felly y drefn normal fuasai *mynydd traws*. Beth a ddynodai hynny? Heb honni gwybod yr union ateb, credaf ei bod yn berthnasol dweud bod Trawsfynydd yn gorwedd mewn ardal o ffyrdd hynafol pwysig, megis yr un dra hynafol sy'n croesi'r bryniau yno o Ddolgellau i Faentwrog a'r Gogledd. Ac ychydig i'r dwyrain o ffordd fodern yr A470 ac yn gyfochrog â hi ceir Sarn Helen, ffordd y Rhufeiniaid. O ddewis yr ystyr 'cyfeiriad' yn hytrach nag 'ardal' ar gyfer *traws*, fe allai *Trawsfynydd*, felly, arwyddocáu 'mynydd cyfeiriad', h.y. 'mynydd (ger) trywydd / llwybr' (gan fod cyfeiriad yn fynych yn gysylltiedig â llwybr). Byddai hyn yn ffordd o ddisgrifio nodwedd ddaearyddol amlwg o eiddo'r mynydd, a naturiol fyddai i unrhyw anheddiad a wreiddiai yn y cyffiniau dderbyn yr un enw.

Wrth ichi ddynesu i Drawsfynydd o Ddolgellau ceir ar y dde godiad tir bychan o'r enw y Mynydd Bychan ac islaw iddo saif y meini hirion a oedd yn arwyddbyst i'r llwybr. Tybed ai'r Mynydd Bychan hwn yw'r mynydd yn yr enw lle *Trawsfynydd*? Os dyna ydyw, byddai angen tybio bod y naill enw mynydd wedi disodli'r llall, ond mae hyn yn fater a ofynnai ymchwil bellach.

Pwynt a fyddai'n gydnaws â'r esboniad a gynigir yma ar yr enw *Trawsfynydd* yw ffurf arall a arferai fod yn enw ar y lle, sef *Trawsbryn* neu *Trawsybryn* a nodir gan y Mri. Owen a Morgan. Os ystyr hyn yw 'llwybr (y) bryn', yna yr un syniad sydd yma ag yn *Trawsfynydd*.

Mae'n bosibl, wrth gwrs, fod esboniad arall ar yr enw – mae mwy o ysbryd ymholi nag o honni yma, a byddwn yn falch o gael fy nghywiro os wyf ar gyfeiliorn. Ond beth bynnag fo'r esboniad cywir, credaf y dylid claddu'r syniad cyffredin mai 'tros y mynydd' a olygir.

Iestyn Daniel

Cornish Place-name Project HLF Grant

Kowethas an Yeth Kernewek has received £28,400 from the Heritage Lottery Fund (HLF) for a new project, *Taves an Tir* (The Tongue of the Land), to be carried out in Lanivet near Bodmin, Heamoor near Penzance and the Tolgus area of Redruth. It will focus on Cornish language heritage as found in field and settlement names.These often preserve important information, such as describing the main characteristics of the landscape, what used to happen there, or who owned the place. Kowethas is a charity working to advance the Cornish language through promoting, encouraging, and fostering its use.

In each of the three chosen places there will be a series of events to encourage the local population to find the Cornish language in their immediate landscape, and then share what they have learned with a wider audience. Through events for schools, children can explore the history of place-names, such as those beginning with *Tre* (Welsh *Tre(f)*), meaning 'homestead' or 'farm', *Goon* (Welsh *Gwaun*) 'downland', or *Lann (*Welsh *Llan*) '(holy) enclosure'.

Volunteers will help chart changes to place-names and collect new information about the Cornish language in the landscape. By the end of the project in May 2016, a booklet, CD and 3D maps will have been produced for each of the three areas, as well as educational resource packs for schools and other community groups. The project will conclude with an exhibition touring Cornish museums.The completed work will find a permanent home in the new Kresen Kernow archive building in Redruth.

Nid yw unrhyw farn a fynegir yn y cylchlythyr hwn o anghenraid yn fynegiant o farn y Gymdeithas na'r Golygydd.

Opinions expressed in this newsletter are not necessarily those of the Society or of the Editor.

Cysodi / Typeset by: Ifor Williams Golygydd / Editor: Gareth A Bevan